# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# (306)v4

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Cynhyrchu Ynni Lleol

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Diweddariad ar y gweithredu gan Lywodraeth Cymru ar Lifogydd yng Nghymru

(30 munud)

## 5 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016

(15 munud)

**NDM5910 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2015

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles a Gwaith sy'n ymwneud â darpariaethau/diwygiadau i'r Bil ynghylch y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol

(15 munud)

**NDM5908 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Diwygio Lles a Gwaith, sy'n ymwneud â thlodi plant a symudedd cymdeithasol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i) a (iii).

Y Bil Diwygio Lles a Gwaith (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes

## 7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2014-15

(60 munud)

**NDM5909 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad 2014-15 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2015.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad Blynyddol Effaith a Chyrhaeddiad 2014-15 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cyfeiriadau at hawliau pobl hŷn yn yr adroddiad effaith a chyrhaeddiad ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i gyflwyno deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 13 Ionawr 2016